Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar wasanaethau addysg yng

# Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

**Tŷ Penallta, Parc Tredomen**
**Ystrad Mynach**
**Hengoed**
**Caerffili**
**CF82 7PG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Mae 27,576 o ddisgyblion yng Nghaerffili ar draws 86 o ysgolion. Mae 73 o ysgolion cynradd, un ysgol pob oed, 11 o ysgolion uwchradd, ac un ysgol arbennig. Mae 12 o’r ysgolion hyn yn ddarparwyr cyfrwng Cymraeg.

Dros gyfartaledd tair blynedd, mae 26% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy’n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 23%.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr awdurdod lleol ym mis Gorffennaf 2012, gydag ymweliadau monitro ym mis Hydref 2013, a mis Ionawr 2014.

Yn 2023-2024, cyllideb addysg yr awdurdod lleol yw £212,769,000. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yn 2023-2024 yw £5,168, sy’n is na chyfartaledd Cymru, sef £5,386.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd y gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o’r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc yng Nghaerffili wedi’i nodi isod:

- Mae 5.4% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed yn dod o grwpiau ethnig leiafrifol, sy’n is na chyfartaledd Cymru, sef 14.3%
- Mae gan 4.6% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Gweithredu gan yr Ysgol)
- Mae gan 5.1% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy)
- Mae gan 2.5% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (â Datganiad)
- Mae gan 0.6% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Cynllun Datblygu Unigol)
- Mae 1.3% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (A, B neu C).
- Mae 15.2% o ddisgyblion 5 oed neu hŷn yn siarad Cymraeg yn rhugl, sy’n is na chyfartaledd Cymru, sef 15.3%
- Mae cyfanswm o 465 o blant yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol

Sylwer: mae’r data ar gyfer plant sy’n derbyn gofal wedi cael ei dalgrynnu i’r 5 agosaf am resymau datgelu.

## Crynodeb

Mae gwasanaethau addysg Caerffili yn cael eu harwain yn alluog iawn gan y Prif Swyddog Addysg a'i huwch dîm. Mae'r tîm yn rhoi pennaf les plant a phobl ifanc wrth wraidd y penderfyniadau a wnânt. Mae'r gwasanaeth addysg yn cael cymorth effeithiol gan y tîm rheoli corfforaethol. Mae'r gwasanaeth yn gwneud cyfraniad cryf at weledigaeth y Cyngor i sicrhau 'dyfodol gwell i bawb' yng Nghaerffili.

Mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA), mae'r awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau effeithiol i gefnogi a herio ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) i wella. Defnyddir 'Tîm o Amgylch yr Ysgol' i gefnogi penaethiaid newydd a chydlynu cymorth ychwanegol ar gyfer ysgolion ac UCDau sy'n achosi pryder. Mae'r ymagwedd effeithiol hon yn dwyn staff perthnasol yn yr awdurdod lleol, GCA a phenaethiaid ynghyd i archwilio materion sy'n wynebu ysgolion, a chaiff ei hategu gan ddefnydd deallus o ddata.

Mae gwaith targedig gan yr awdurdod lleol i gefnogi presenoldeb ysgol wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae presenoldeb ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol yn unol â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sy'n sefyllfa gymharol gref o ystyried cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae gwaith yr awdurdod i leihau gwaharddiadau yn llai effeithiol, ac mae gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol yn rhy uchel.

Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar ddeilliannau addysg. Mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth cryf ar gyfer blynyddoedd cynnar bywyd plentyn. Mae'r awdurdod yn darparu gwasanaethau defnyddiol i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd trwy ysgolion bro.

Mae swyddogion yn y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn darparu cymorth effeithiol iawn i ysgolion, UCDau a lleoliadau addysg eraill. Mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio ymagwedd strategol a systematig at weithredu diwygiadau ADY.

Mae tua thraean o'r ysgolion cynradd yng Nghaerffili yn cael eu harwain gan bennaeth gweithredol, naill ai fel rhan o ffederasiwn ffurfiol neu drwy gydweithrediad anffurfiol rhwng dwy ysgol. Mae'r trefniadau ar y cyd hyn wedi cefnogi cynaliadwyedd ysgolion, darparu cyfleoedd mwy cyfoethog ar gyfer dysgu proffesiynol i staff ac wedi helpu i fynd i'r afael â phryderon lle'r oeddent yn bodoli. Mae'r awdurdod lleol yn gwneud defnydd effeithiol o le gwag mewn adeiladau ysgol i ddarparu gwasanaethau buddiol i ddysgwyr a'u teuluoedd, fel hybiau cymunedol, canolfan trochi yn y Gymraeg a dosbarthiadau arbenigol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae diwylliant cryf o ddiogelu ar draws meysydd gwasanaeth yr awdurdod lleol, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu, ei reoli a'i gyflawni'n dda yn ei wasanaethau addysg.

Mae diwylliant o fyfyrio ar effeithiolrwydd gwasanaethau a chynllunio ar gyfer gwelliannau wedi'i ymgorffori yn y gwasanaeth addysg. Fodd bynnag, er bod cryfderau sylweddol mewn gwasanaethau addysg, nid yw rheolwyr bob amser yn gwerthuso'n ddigon da yr effaith y mae gwasanaethau penodol neu gyllid grant yn ei chael ar ddeilliannau dysgwyr neu'n ystyried gwerth am arian.

Mae aelodau etholedig yn sicrhau bod addysg yn aros yn flaenoriaeth uchel i’r cyngor. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o’r gwasanaeth addysg ac maent yn gweithio’n bwrpasol gyda swyddogion, yn gyffredinol. Maent yn gwneud penderfyniadau gwybodus am wasanaethau, ysgolion a lleoliadau eraill. Mewn cyfarfodydd craffu, mae aelodau etholedig yn gofyn cwestiynau heriol i swyddogion, ond nid ydynt bob amser yn dal y Cabinet i gyfrif yn ddigon da.

Mae staff sy’n gweithio mewn gwasanaethau addysg yn elwa o gyfleoedd dysgu proffesiynol defnyddiol. Mae’r Prif Swyddog Addysg yn arwain trwy esiampl wrth gefnogi lles staff yn y gwasanaeth addysg yn ogystal â staff mewn ysgolion a lleoliadau eraill.

Mae’r awdurdod lleol yn rheoli ei gyllideb addysg yn dda. Mae ganddo ddealltwriaeth dda o sefyllfa ariannol ysgolion ac mae’n darparu cymorth da i ysgolion er mwyn iddynt reoli eu cyllidebau.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod gwerthuso gwasanaethau addysg a chynllunio ar gyfer eu gwella yn canolbwyntio’n fwy cyson ar eu heffaith ar ddeilliannau dysgwyr a’u gwerth am arian

A2 Gwella’r prosesau a’r strategaethau i gefnogi a herio ysgolion i leihau cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi’r adroddiad arolygu, dylai’r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i’r afael â’r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd trwy’r broses arolygu. Dylai’r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau o fewn tri mis o gyhoeddi’r adroddiad arolygu.

## Prif ganfyddiadau

### Deilliannau

Nid oeddem yn gallu darparu gwerthusiad llawn o ddeilliannau. Mae hyn oherwydd effaith pandemig COVID-19, a achosodd i'r arolygiadau o ysgolion a'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg eraill gael eu hatal er mis Mawrth 2020. Mae hefyd o ganlyniad i'r diffyg data ar ddeilliannau y gellir ei gymharu dros gyfnod oherwydd bod y pandemig wedi achosi newidiadau i'r ffordd yr oedd cymwysterau'n cael eu dyfarnu. Fe wnaeth hyn hefyd yn effeithio ar y rhan fwyaf o'r data arall yr ydym yn ei ystyried wrth wneud gwerthusiadau, fel presenoldeb ysgol, gwaharddiadau ysgol a chyrchfannau dysgwyr ôl-16, ond, yn ddiweddar, rydym wedi dechrau derbyn data o'r math hwn eto. Mae unrhyw werthusiadau sy'n dilyn yn darparu cyd-destun trwy adrodd ar ddeilliannau cyn y pandemig neu'n ymwneud â deilliannau mwy diweddar lle mae sail y dystiolaeth yn ddilys a dibynadwy.

Cyn y pandemig, arolygom 33 o ysgolion yng Nghaerffili rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2020. Roedd deilliannau'r arolygiadau ysgol hyn yn cyd-fynd â chyfartaleddau cenedlaethol, at ei gilydd.

Ers i arolygiadau ailddechrau ar ôl y pandemig, arolygom 36 o ysgolion ac UCD yng Nghaerffili rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mehefin 2024. Mae cyfran y darparwyr hyn yr oedd angen unrhyw waith dilynol arnynt i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella a amlygwyd yn yr adroddiad arolygu yn cyd-fynd yn fras â chyfran y darparwyr yn genedlaethol yr oedd angen gweithgarwch dilynol arnynt. Arolygwyd chwe lleoliad nas cynhelir yn ystod yr un cyfnod, ac ni fu angen unrhyw weithgarwch dilynol ar unrhyw leoliad.

Mae presenoldeb ysgol wedi bod gryn dipyn yn is ers y pandemig nag ydoedd cyn y pandemig. Roedd presenoldeb ar draws pob ysgol yng Nghaerffili yn 2022-2023 yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond, o ystyried cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedd presenoldeb yn rhesymol o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd presenoldeb yn 2023-2024, ar adeg yr arolygiad, yr un peth â'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n welliant nodedig o ystyried cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Er gwaethaf y gwelliant hwn yn gyffredinol, mae lleiafrif o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd yn colli mwy na diwrnod o ysgol yr wythnos ar gyfartaledd.

Mae nifer y dysgwyr a waharddwyd o'r ysgol yng Nghaerffili wedi cynyddu'n sylweddol ers y pandemig. Mae'r cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol yn rhy uchel.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae cyfran y dysgwyr yng Nghaerffili ar ddiwedd Blwyddyn 11 sy'n parhau ag addysg amser llawn mewn chweched dosbarth neu goleg tua'r un peth â'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae cyfran y dysgwyr ar y cam hwn nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn debyg i gyfartaledd Cymru, hefyd.

Trwy'r gwasanaeth ieuenctid, mae dros 2,000 o bobl ifanc yn cael achrediad ffurfiol ac anffurfiol bob blwyddyn gan gynnwys, er enghraifft, TGAU, Gwobrau Cyflawniad

Ieuenctid, Gwobrau Dug Caeredin a gwobrau lleol achrededig mewn meysydd fel chwaraeon ac addysg awyr agored. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau gwasanaeth ieuenctid yn gwneud cyfraniad pwysig at ddatblygu medrau personol a chymdeithasol pobl ifanc.

Cefnogir lles plant a phobl ifanc yn gadarnhaol trwy ystod eang o wasanaethau ataliol ac ymyrraeth a ddarperir gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid. Mae dysgwyr sy'n defnyddio gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion Caerffili yn gweld gwelliannau i'w lles sy'n debyg i'r deilliannau cyfartalog ar gyfer gwasanaethau cwnsela ledled Cymru. Fodd bynnag, mae cyfran y dysgwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth yng Nghaerffili gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae pobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r Fforwm Ieuenctid yn cymryd rhan yn frwdfrydig ac yn adeiladol. Yn ogystal â chefnogi gwneud penderfyniadau strategol yn yr awdurdod lleol, mae pobl ifanc ar draws y sir yn dewis mater penodol i ganolbwyntio arno fel prosiect bob blwyddyn ac yn elwa o allbwn y prosiect hwn. Er enghraifft, canolbwyntiodd prosiect diweddar ar helpu pobl ifanc i ddeall beth i'w wneud mewn argyfwng. Datblygodd a chynhyrchodd pobl ifanc gêm fwrdd o'r enw 'Siren' sydd wedi helpu i ddatblygu dealltwriaeth a medrau pobl ifanc mewn perthynas â'u diogelwch personol. Mae'r cyfleoedd i bobl ifanc ar draws pob rhan o Gaerffili leisio'u barn yng nghyfarfodydd y Fforwm Ieuenctid ac yn y gynhadledd flynyddol wedi'u cyfyngu gan ymgysylltiad amrywiol ysgolion uwchradd.

**Gwasanaethau addysg**

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cefnogi gwella ysgolion a'i gyflawni?**

Mae gan swyddogion o fewn y gwasanaeth addysg wybodaeth a dealltwriaeth drwyadl o'r ysgolion a'r UCDau yn yr awdurdod a'u penaethiaid. Mae gwaith gwella ysgolion yn cael ei sbarduno gan ddiben moesol a rennir i sicrhau'r deilliannau a'r profiadau gorau i ddisgyblion.

Mae perthnasoedd cryf rhwng swyddogion yn yr awdurdod lleol ac arweinwyr ysgolion ac UCDau. Mae'r rhain yn helpu i greu diwylliant o ymddiriedaeth lle mae arweinwyr ysgolion ac UCDau yn gwerthfawrogi'r cymorth sylweddol sydd ar gael yn rhwydd iddynt gan yr awdurdod lleol, ond hefyd yn disgwyl ac yn derbyn yr her a gynigir yn gyson.

Mae strategaeth glir ar gyfer gwella ysgolion. Mae swyddogion yr awdurdod lleol ar draws y gwasanaeth ac o wasanaethau eraill yn cydweithio'n bwrpasol i ddarparu gwasanaeth gwella ysgolion cydlynol a chynhwysfawr. Er enghraifft, mewn cyfarfodydd grŵp ehangach, mae swyddogion yn rhannu gwybodaeth am ystod eang o agweddau fel diogelu, presenoldeb, cyllid ac anghenion dysgu ychwanegol i amlygu unrhyw faterion posibl a sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei dargedu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae swyddogion yn gweithio'n dda â'u cydweithwyr yn y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) a gomisiynir yn rhanbarthol. Mae'r bartneriaeth gydweithredol hon wedi datblygu a chryfhau dros amser, gan arwain at ymagwedd gynyddol effeithiol a chydgysylltiedig at wella ysgolion. Mae'r awdurdod lleol yn cyfarwyddo'r cymorth a ddarperir gan y GCA yn ofalus, gan sicrhau ei fod wedi'i deilwra i anghenion ysgolion

ac UCDau Caerffili ac i ystyried blaenoriaethau'r awdurdod. Er enghraifft, ceir ymagwedd benodol at weithredu'r 'Tîm o Amgylch yr Ysgol' ac mae'r GCA yn darparu adroddiadau thematig ar flaenoriaethau'r awdurdod. Mae cymorth i ddarparwyr yn canolbwyntio'n briodol ar agweddau pwysig fel addysgu a dysgu, datblygu'r cwricwlwm ac arweinyddiaeth, er bod natur y cymorth hwn wedi'i theilwra'n synhwyrol i anghenion darparwyr unigol. Mae cymorth i leoliadau cyfrwng Cymraeg wedi gwella. Mae darparwyr partner sy'n arbenigo mewn meysydd penodol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi eraill, at ei gilydd.

Mae systemau cadarn, cynhwysfawr ar gyfer dwyn yr holl wybodaeth berthnasol am ysgolion ac UCDau a gwaith yr awdurdod lleol a'r GCA ynghyd. Mae proses systematig ar gyfer rhannu gwybodaeth o fewn yr awdurdod a rhwng yr awdurdod a'r GCA, trwy systemau electronig a chyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol defnyddiol. O ganlyniad, mae'r awdurdod a'r GCA yn adnabod eu hysgolion a'u UCDau yn dda iawn, fel arfer. Maent yn gwybod ble mae'r arfer dda ac yn defnyddio hyn yn dda i gefnogi darparwyr eraill, ond hefyd yn gwybod ble mae angen gwelliannau.

Mae'r perthnasoedd iach rhwng swyddogion yr awdurdod lleol a staff y GCA yn golygu bod swyddogion yn gallu ffurfio, gofyn cwestiynau am, a herio'r ddarpariaeth gan y GCA. Er enghraifft, maent wedi cydweithio i wneud newidiadau buddiol i wella cysondeb yng ngwaith Partneriaid Gwella Ysgolion (PGYau). Mae arweiniad a disgwyliadau clir gan yr awdurdod a'r GCA yn cael eu rhannu gyda PGYau.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r awdurdod a'r GCA wedi gwella eu pwyslais ar sicrhau ansawdd gwaith gwella ysgolion. Mae systemau priodol i sicrhau ansawdd PGYau a Phrif Bartneriaid Gwella Ysgolion (PBGYau).

Mae diwylliant o hunanwerthuso a myfyrio rheolaidd yn yr awdurdod lleol sy'n galluogi swyddogion i amlygu agweddau penodol ar waith ysgolion neu UCDau y mae arnynt angen mwy o sylw neu welliant, fel gwaith llywodraethwyr. Mae swyddogion a PGYau yn gwneud defnydd effeithiol o ddata, gwybodaeth a deilliannau arolygu i olrhain perfformiad ysgolion ac UCDau ac amlygu'r rhai hynny y mae arnynt angen cymorth neu agweddau cyffredinol y mae angen eu gwella neu eu hadolygu. Er enghraifft, amlygwyd medrau digidol a darpariaeth ar gyfer y Gymraeg fel meysydd cyffredin i'w gwella o ddadansoddi argymhellion arolygiadau. Mae swyddogion a PGYau yn canolbwyntio fwyfwy ar dystiolaeth o lygad y ffynnon trwy'r system hunanwerthuso a gefnogir neu brosesau Monitro, Gwerthuso ac Adolygu (MGA). Fodd bynnag, mae ansawdd gwerthuso effaith yn amrywio.

Mae'r syniad o adroddiadau thematig wedi'u comisiynu yn ddefnyddiol. Mae hyn yn darparu proses ddefnyddiol i ganolbwyntio ar flaenoriaethau sy'n benodol i'r awdurdod. Mae'r gweithgareddau a ddefnyddir i'w llywio, fel holiaduron a chraffu ar waith, yn werthfawr. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth a ddefnyddir i lywio adroddiadau thematig yn cael ei thriongli'n ddigon da ac nid yw'r adroddiadau'n darparu trosolwg clir a hygyrch o gryfderau a meysydd i'w gwella mewn meysydd penodol. O ganlyniad, er bod y broses yn werthfawr, nid yw'r cynnyrch terfynol yn darparu llwyfan mor ddefnyddiol ar gyfer gwella ymhellach ag y gallai. Yn ogystal, nid yw camau gweithredu sy'n deillio o weithgareddau gwerthuso, fel MGAau ac adroddiadau thematig, bob amser yn glir neu'n canolbwyntio digon ar yr effaith ddisgwyliedig ar ddysgwyr.

Mae gwella gwaith llywodraethwyr ysgolion yn flaenoriaeth yng nghynllun gwella presennol y gwasanaeth. Mae'r awdurdod lleol a'r GCA yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu cymorth gwerthfawr i lywodraethwyr. Er enghraifft, maent wedi darparu cyrsiau wedi'u teilwra i gyrff llywodraethol o fewn clystyrau o ysgolion ac arweiniad ar adroddiadau penaethiaid i lywodraethwyr. Pan fu angen, mae'r awdurdod hefyd wedi ymyrryd i gryfhau cyrff llywodraethol trwy ychwanegu aelodau â medrau ac arbenigedd penodol.

Mae proses ymyrraeth a chymorth cynnar yr awdurdod lleol, sef y Tîm o Amgylch yr Ysgol, yn effeithiol wrth ddarparu cymorth i ysgolion ac UCDau pan fydd materion yn codi, yn hytrach na phan sylwir arnynt mewn arolygiad. Un o nodweddion arbennig y broses hon, sy'n dangos yr ymddiriedaeth gref rhwng yr awdurdod ac ysgolion, yw'r ffaith bod darparwyr yn gwirfoddoli i fod yn rhan o'r broses hon os ydynt yn teimlo bod angen. Nodwedd arall arbennig yw'r ffaith bod yr holl benaethiaid sy'n newydd i'r awdurdod neu'n newydd i'r swydd yn gysylltiedig â'r broses hon, ac yn cael eu cynorthwyo gan raglen sefydlu gynhwysfawr. Mae hyn yn galluogi penaethiaid newydd i ddod i adnabod swyddogion yr awdurdod lleol, ac fel arall, ac i gael unrhyw gymorth sy'n angenrheidiol. Mae'r ymagwedd Tîm o Amgylch yr Ysgol yn darparu pecyn cynhwysfawr o gymorth sy'n canolbwyntio ar anghenion a blaenoriaethau penodol y darparwr.

Mae ysgolion sy'n cael eu gosod mewn unrhyw gategori gweithgarwch dilynol ar ôl eu harolygiad yn gwneud cynnydd da, fel arfer, ac yn dod allan o'u categori mewn modd amserol. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid yw ysgolion y mae arnynt angen cymorth ychwanegol wedi cael eu hamlygu'n ddigon cynnar neu fe allai gwybodaeth wedi bod yn fwy cywir.

Yn gyffredinol, mae gwasanaethau gwella ysgolion yn cael effaith gadarnhaol gan fod deilliannau arolygu ysgolion ar gyfer ysgolion ac UCDau yn cyd-fynd â'r cyfartaledd cenedlaethol, at ei gilydd.

**Pa mor effeithiol yw'r prosesau a'r strategaethau ar gyfer gwella presenoldeb a lleihau gwaharddiadau?**

Mae gan yr awdurdod lleol strategaeth glir ar gyfer gwella presenoldeb ysgol. Adlewyrchir hyn yn briodol yng ngweledigaeth a chynllun corfforaethol y cyngor, yn ogystal ag yng nghynlluniau penodol y gwasanaeth addysg. Mae'r awdurdod lleol yn cyfleu ei strategaeth ar gyfer gwella presenoldeb yn effeithiol i ysgolion a rhanddeiliaid eraill ar draws yr awdurdod lleol. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o sut y dylent gyfarwyddo eu gwaith i wella presenoldeb.

Mae gan yr awdurdod lleol brosesau defnyddiol i fonitro a gwerthuso presenoldeb. Mae gan swyddogion berthnasoedd cryf â staff arweiniol ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau). Maent yn eu cefnogi a'u herio'n dda i wella eu cyfraddau presenoldeb ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gadarnhaol ynglŷn â strategaeth a phrosesau'r awdurdod lleol ac yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r her gan swyddogion wrth eu cefnogi i wella presenoldeb.

Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n dda ochr yn ochr ag ysgolion ac UCDau i gynyddu disgwyliadau ynglŷn â phresenoldeb disgyblion yn dilyn pryderon ynglŷn â

phresenoldeb y llynedd. Mae hyn yn cynnwys gosod targedau heriol, ac ymateb yn gyflym i gynyddu'r targedau hyn wrth i ysgolion eu cyflawni. Mae rhannu data presenoldeb misol rhwng ysgolion yn cynyddu'r her i wella eu presenoldeb ymhellach, yn enwedig gan fod ysgolion yn gallu gweld y gyfradd bresenoldeb uchaf ar gyfer ysgol mewn cyd-destun tebyg.

Mae swyddogion yn gweithio'n agos gydag arweinwyr ysgolion i gefnogi eu hunanwerthusiad o bresenoldeb a chynlluniau cysylltiedig i wella presenoldeb. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wella gan becyn cymorth presenoldeb defnyddiol a ddatblygwyd yn ddiweddar ar y cyd ag ysgolion. Yn ogystal, mae hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr wedi eu helpu i gynnig mwy o her i arweinwyr ysgolion.

Mae gan yr awdurdod lleol ystod o ddarpariaethau amlasiantaethol defnyddiol ar gyfer disgyblion sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol (EOTAS). Mae hyn yn cynnwys UCDau a darpariaeth ar gyfer disgyblion â phroblemau emosiynol ac iechyd meddwl a'r rhai hynny sy'n amharod i fynd i'r ysgol. Er enghraifft, mae'r ddarpariaeth 'Arloesi' yn cynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd yn llwyddiannus i helpu disgyblion i ailymgysylltu â'u haddysg a gwella eu presenoldeb. Yn ogystal, mae ystod helaeth o strategaethau, prosesau a dysgu proffesiynol buddiol ar gael i ysgolion i gefnogi'r disgyblion hyn. Ceir llawer o enghreifftiau o effaith gadarnhaol y strategaethau hyn ar ymgysylltiad a phresenoldeb disgyblion unigol.

Mae gwaith yr awdurdod gydag ysgolion ac UCDau yn cael effaith gadarnhaol ar gynyddu cyfraddau presenoldeb. Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella yn ystod y flwyddyn academaidd hon ac maent yn unol â chyfraddau cenedlaethol. Mae lleiafrif o ysgolion wedi gwella presenoldeb i gyfraddau uwch na chyn y pandemig. Mae cyfraddau absenoliaeth barhaus wedi lleihau ychydig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ond maent yn rhy uchel o hyd, yn enwedig ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd.

Mae'r awdurdod lleol wedi diwygio ei ganllawiau i ysgolion ynglŷn â gwaharddiadau yn ddiweddar ac wedi dechrau gwerthuso cyfradd gwaharddiadau yn gysylltiedig â darpariaeth. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae swyddogion wedi adolygu'r ddarpariaeth i gefnogi lles disgyblion mewn ambell ysgol lle ceir cyfraddau gwahardd uwch. Mae hyn yn fuddiol wrth helpu swyddogion i gryfhau'r her i'r ysgolion hyn a'u cefnogi i deilwra eu darpariaeth. Mae'r gwaith hwn gydag ambell ysgol wedi arwain at leihau gwaharddiadau yn yr achosion hyn.

Mae'r gwasanaeth seicoleg addysg yn darparu cymorth buddiol i ddisgyblion a waharddwyd yn barhaol, gan gynnwys ymweliadau cartref, ymyriadau lles a chymorth i'w hintegreiddio i leoliadau yn y dyfodol. Mae'r cymorth hwn yn llwyddo i alluogi disgyblion a waharddwyd yn barhaol i ailymgysylltu ag ysgol neu leoliadau addysgol eraill, lle y bo'n briodol.

Mae arweinwyr yn casglu ystod o ddata defnyddiol am waharddiadau, gan gynnwys ar gyfer rhai grwpiau penodol o ddisgyblion, fel y rhai hynny sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol (EOTAS), y rhai hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y rhai hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a phlant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae arweinwyr yn dechrau defnyddio'r data hwn i werthuso tueddiadau. Fodd bynnag, nid oes gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth fanwl o gyfraddau gwahardd pob grŵp o ddisgyblion.

Mae gwaharddiadau cyfnod penodol o fwy na phum niwrnod wedi lleihau dros amser, yn gyffredinol, er eu bod yn rhy uchel o hyd. Mae cyfraddau gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o bum niwrnod neu lai wedi cynyddu ar draws yr awdurdod lleol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r prosesau ar draws yr awdurdod lleol ar gyfer dadansoddi a gwerthuso achosion sylfaenol gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol ar gam datblygu cynnar.

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn gweithio i liniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol?**

Mae arweinwyr ar draws y gwasanaeth yn dangos yn glir ymrwymiad cryf a diffuant i leihau effaith tlodi ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae gweledigaeth a rennir, uchelgais a chyfrifoldeb ar y cyd 'Tîm Caerffili' yn galluogi arweinwyr i gynllunio'n effeithiol i gefnogi lles plant a phobl ifanc o'r adeg cyn-geni, trwy leoliadau ac ysgolion ac ymlaen i gamau nesaf addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Mae swyddogion yn ystyried ystod eang o ddata perthnasol, cyd-destunol, sy'n eu helpu i gael gwybodaeth a dealltwriaeth dda o anghenion cymunedau ledled Caerffili. Mae hyn yn eu galluogi i dargedu eu hadnoddau'n effeithiol. Mae'r gwaith i liniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol yn amlwg ar draws bron pob un o feysydd cynllun gwella'r gwasanaeth addysg. Yn gyffredinol, mae meini prawf llwyddiant yn y rhannau hyn o'r cynllun gwasanaeth yn cynnwys pwyslais ar ddangosyddion priodol, ond nid yw'r rhain bob amser yn ddigon penodol, nac wedi'u seilio'n gadarn ar y wybodaeth dda sydd gan swyddogion am eu meysydd gwaith.

Mae timau'n cydweithio'n dda ar draws meysydd gwasanaeth a chyda phartneriaid allanol i sefydlu ystod eang o ymyrraeth a chymorth buddiol. Er enghraifft, mae cysylltiadau defnyddiol rhwng tîm y blynyddoedd cynnar a'r bwrdd iechyd lleol yn sicrhau, o'r diwrnodau cynharaf gyda'r cynllun cynenedigol 'Cychwyn Iach', y gellir targedu cymorth personol i'r teuluoedd mwyaf bregus. Mae'r pwynt cyswllt canolog 'Gofalu am Gaerffili' a'r hybiau cymunedol mewn llyfrgelloedd yn cynnig llwyfan defnyddiol i deuluoedd gael cymorth, yn ogystal â heriau darllen i gefnogi medrau llythrennedd plant. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda Menter Iaith i sicrhau bod adnoddau ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

Mae Caerffili yn treialu ymagwedd ysgol fro yn un o'i hysgolion pob oed a'i chlwstwr. Mae swyddogion ac arweinwyr ysgolion wedi sefydlu ystod ystyriol o arferion buddiol a chefnogol sy'n ennyn diddordeb. Maent wedi cysylltu'n agos â'r tîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu i addasu ystafell gymunedol a ddefnyddir yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol, ar gyfer dysgu ac fel canolfan i asiantaethau gysylltu â theuluoedd. Er enghraifft, gall oedolion gymryd rhan yn y prosiect 'Lluosi', sy'n cefnogi eu medrau rhifedd ac yn gweithredu fel porth i hyfforddiant ac achrediad ychwanegol. Ar draws y clwstwr, gall disgyblion gael hyfforddiant cerddoriaeth ac ystod eang o gyfleoedd chwaraeon i'w helpu i ddod yn fwy creadigol ac egnïol ac i ddysgu am ffyrdd iach o fyw, ni waeth am incwm eu cartref. Mae'r ymagwedd ysgol fro yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion, ac yn enwedig presenoldeb, ar draws y clwstwr.

Mae ysgolion a lleoliadau nad ydynt yn gysylltiedig â'r cynllun peilot yn mabwysiadu strategaethau tebyg hefyd, gan geisio cyllid grant ychwanegol i wneud hynny yn aml. Er enghraifft, maent yn ariannu rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol neu'n

ychwanegu capasiti trwy gyflogi swyddogion cyswllt â theuluoedd. Mae'r swyddogion ysgol fro yn darparu hyfforddiant a chymorth defnyddiol i arweinwyr ysgolion a lleoliadau ac i gyrff llywodraethol, sy'n helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n dda i fodloni anghenion targedig.

Mae gan y gwasanaeth ieuenctid brosesau effeithiol i adnabod, monitro a chefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o'u haddysg neu hyfforddiant. Er enghraifft, mae'r tîm 'Ysbrydoli' yn cynnig ystod o gyfleoedd a arweinir gan anghenion, gan gynnwys cyswllt cyson â phobl ifanc sy'n wynebu risg drwy gydol gwyliau'r haf. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gweithio'n agos gydag ysgolion, lleoliadau a phartneriaid eraill, fel y gwasanaeth lles addysg, i adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref a chynnig rhaglenni wedi'u teilwra a'u targedu. At ei gilydd, mae'r awdurdod lleol yn cynnal cysylltiad â bron pob person ifanc ac yn rhagweithiol wrth ddileu rhwystrau rhag cynnydd a'u cefnogi i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl Blwyddyn 11.

Mae PGYau yn monitro a chytuno ar gynlluniau grant datblygu disgyblion ysgolion a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac yn trafod y rhain gyda swyddogion yr awdurdod lleol. O ganlyniad, mae gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth gadarn o'r gwaith a ariennir gan grant y mae ysgolion unigol yn ei wneud i liniaru effaith tlodi. Mae'r awdurdod lleol wedi comisiynu adolygiadau thematig rheolaidd o ddefnydd ac effaith y grant datblygu disgyblion mewn ysgolion a'r grant datblygu disgyblion blynyddoedd cynnar. Er bod yr adroddiadau hyn yn rhoi trosolwg eang a defnyddiol o wybodaeth a gasglwyd o ymweliadau PGYau, nid ydynt bob amser yn ddigon manwl gywir. Mae hyn yn golygu nad yw'r wybodaeth a rennir yn llywio trosolwg strategol yr awdurdod lleol o ansawdd y gwaith a ariennir gan y grant hwn yn ddigon dda, na'i effaith ar agweddau penodol ar ddysgu neu gynnydd.

Mae gwaith effeithiol yr awdurdod lleol i wella ystod eang o ddeilliannau lles, a'r effaith ar bresenoldeb, yn arbennig, yn darparu sylfaen gref i wella cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel.

### Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cefnogi'r broses o weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018?

Mae gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yr awdurdod lleol wedi canolbwyntio'n llwyddiannus ar ymateb i'w ddyletswyddau statudol, a'u cyflawni, o ystyried egwyddorion Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae uwch arweinwyr wedi defnyddio ymagwedd strategol, systematig a chefnogol drwy gydol camau trawsnewid a gweithredu diwygiadau ADY. Mae'r awdurdod lleol yn darparu ystod eang o wasanaethau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, eu teuluoedd, ac ysgolion a lleoliadau yn dda. Mae'r gwasanaethau hyn yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar gynyddu capasiti mewn ysgolion.

Mae'r tîm cynhwysiant statudol ac athrawon ymgynghorol arbenigol yn dra medrus a gwybodus. Maent yn darparu cymorth systematig, amhrisiadwy i ysgolion a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar. Mae gwaith y swyddogion hyn, sydd o ansawdd uchel, yn elfen nodedig o waith yr awdurdod lleol wrth weithredu diwygiadau ADY.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu ystod eang o gyngor, cymorth a chanllawiau. Mae'r awdurdod wedi datblygu dogfen 'Egwyddorion a Disgwyliadau' ddefnyddiol sy'n

crynhoi'n fuddiol ddisgwyliadau'r awdurdod ynglŷn â'r trefniadau cymorth mewn lleoliadau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Wrth gefnogi ysgolion a lleoliadau, mae swyddogion yn canolbwyntio'n dda ar feysydd fel datblygu proffiliau un dudalen pwrpasol o ddisgyblion, cynlluniau datblygu unigol buddiol ac ymagweddau addysgu a dysgu effeithiol i gefnogi dysgwyr ag ADY. Mae swyddogion wedi hwyluso cyfarfodydd clwstwr ysgolion gwerthfawr i gefnogi gwaith Cydlynwyr ADY.

Mae swyddogion yn hyrwyddo cydweithio ymhlith ysgolion i'w cefnogi i weithredu diwygiadau ADY. Enghraifft nodedig o hyn yw sut mae'r staff arbenigol yn Ysgol Arbennig Cae'r Drindod, gan gynnwys Gwasanaeth Sbectrwm Awtistiaeth Caerffili sydd wedi'i leoli yn yr ysgol, yn darparu ystod helaeth o gymorth arbenigol o ansawdd uchel i ysgolion a lleoliadau prif ffrwd. Mae staff Ysgol Arbennig Cae'r Drindod, sy'n darparu'r gwasanaeth allgymorth hwn, yn cael effaith werthfawr ar ansawdd y ddarpariaeth dysgu ychwanegol ar draws y sir. Mae'r cymorth allgymorth hwn yn ategu'r cymorth a ddarperir gan swyddogion yr awdurdod lleol yn dda iawn.

Mae'r awdurdod lleol yn cyfathrebu'n effeithiol â rhanddeiliaid ac yn sicrhau bod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau dysgwyr, rhieni a gofalwyr yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu cymorth. Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'i hen sefydlu mewn ysgolion a lleoliadau, ac mae swyddogion yn cefnogi ymarferwyr i weithredu cynlluniau datblygu unigol yn addas. Mae swyddogion yn mynychu cyfarfodydd adolygu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn rheolaidd. O ganlyniad i'r ymagwedd hon, mae Cydlynwyr ADY yn datblygu perthynas waith effeithiol iawn â swyddogion yn yr awdurdod lleol a chânt eu cefnogi'n dda i gyflawni eu rôl. Yn ogystal, o ganlyniad i'r cymorth hwn, mae teuluoedd yn aml yn datblygu perthynas waith effeithiol â swyddogion cyfarwydd yr ymddiriedir ynddynt yn yr awdurdod lleol, sy'n eu helpu i ymwneud â phenderfyniadau ynglŷn â darpariaeth a lleoliad yn y dyfodol.

Mae arweinwyr yn y tîm cynhwysiant wedi datblygu a gweithredu platfformau electronig effeithiol iawn sy'n helpu i adnabod a darparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Mae gwybodaeth werthfawr am ddisgyblion ag ADY a darpariaeth i gefnogi'r dysgwyr hyn ar gael i randdeiliaid perthnasol trwy'r platfformau digidol diogel hyn. Defnyddir y rhain, er enghraifft, i gefnogi prosesau atgyfeirio a rhannu adnoddau canolog buddiol. Mae staff o ystod o asiantaethau wedi rhoi cyngor a deunyddiau i gyfrannu at yr adnoddau hyn. Mae'r platfformau digidol yn cefnogi prosesau statudol yn dda ac yn galluogi darparwyr i adolygu'r ddarpariaeth dysgu ychwanegol yn barhaus. Mae hyn yn elfen nodedig o'r awdurdod lleol sydd wedi cael ei rhannu'n llwyddiannus ar draws y sector.

Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod ei dîm cynhwysiant yn gallu darparu'r rhan fwyaf o'i gyngor, arweiniad a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw darpariaeth ac adnoddau i gefnogi dysgwyr ag ADY mewn addysg cyfrwng Cymraeg wedi'u datblygu digon.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu proses asesu, cynllunio a monitro integredig a chydweithredol sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol i blant a phobl ifanc ag ADY. Mae'r awdurdod lleol yn olrhain deilliannau disgyblion yn gadarn ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cynnydd disgyblion yn effeithiol.

Mae’r gwasanaeth blynyddoedd cynnar yn defnyddio ystod o systemau a phrosesau pwrpasol i gefnogi plant a staff mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion. Mae swyddogion yn cefnogi arweinwyr cynhwysiant yn yr holl leoliadau blynyddoedd cynnar yn dda. Er enghraifft, maent yn cefnogi prosesau atgyfeirio ac yn cyflwyno rhaglen dysgu proffesiynol werthfawr yn y blynyddoedd cynnar i gefnogi ymarferwyr.

Mae swyddogion wedi gweithredu protocol pontio ôl-16 i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu hadnabod a’u cefnogi i bontio’n llwyddiannus i ddarpariaeth ôl-16. I gefnogi hyn, mae’r awdurdod yn arwain grŵp amlasiantaethol ôl-16 defnyddiol i gynorthwyo dysgwyr i bontio.

Mae gan yr awdurdod lleol berthnasoedd gwaith strategol tra effeithiol ag ystod o bartneriaid allweddol. Ar y cyd â’r partneriaid hyn, mae’r awdurdod wedi sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn ymwneud yn llawn â chefnogi plant a phobl ifanc ag ADY.

Mae swyddogion yn myfyrio ar waith y gwasanaeth ADY ac yn nodi ei gryfderau a’i feysydd i’w gwella yn addas. Maent yn dadansoddi deilliannau disgyblion ag ADY a data arall perthnasol yn briodol. Er enghraifft, mae’r awdurdod yn cynnal adolygiadau rheolaidd i werthuso ansawdd y ddarpariaeth dysgu ychwanegol, monitro effeithlonrwydd strategaethau a weithredir a sicrhau y cydymffurfir â’i ddyletswyddau statudol.

Mae uwch swyddogion yn darparu gwybodaeth werthfawr yn rheolaidd i’r pwyllgor craffu ar addysg ynglŷn â chynnydd yr awdurdod o ran diwygiadau ADY, yn ogystal â darparu gwybodaeth ddefnyddiol am waith gwahanol feysydd gwasanaeth.

Ar hyn o bryd, mae’n rhaid i ysgolion fynd trwy broses feichus i gael cyllid i gefnogi ADY disgyblion unigol. Mae’n rhaid i ysgolion wneud cais am gyllid trwy banel ADY yr awdurdod lleol. Mae’r awdurdod lleol wedi cydnabod bod y broses hon yn heriol ac mae’n ymgynghori â rhanddeiliaid ynglŷn â dirprwyo cyllid i ysgolion yn flynyddol yn lle hynny.

### Pa mor effeithiol y mae’r awdurdod lleol yn cynllunio ar gyfer ad-drefnu ysgolion a threfniadau ffederasiwn?

Mae gan yr awdurdod lleol ymagwedd strategol gadarn ac effeithiol, a ddeëllir yn dda, at ymgynghori a gwneud penderfyniadau ynglŷn ag ad-drefnu ysgolion neu’r ddarpariaeth UCD yn ffurfiol. Mae swyddogion yn blaenoriaethu materion ad-drefnu yn effeithiol. Maent yn cynllunio o flaen llaw mewn modd amserol i ad-drefnu’r ddarpariaeth pryd bynnag y bo’n angenrheidiol, gan ddilyn y canllawiau ymgynghori statudol yn ofalus. Mae ystyriaethau’n cynnwys, er enghraifft, addasu ystad yr awdurdod lleol at ddiben gwahanol, yn ogystal â gwneud defnydd da o ffrydiau cyllido Llywodraeth Cymru i amnewid adeiladau sy’n hen neu sydd mewn cyflwr gwael.

Mae’r broses lawn yn cynnwys aelodau etholedig yr awdurdod, yn briodol, er enghraifft trwy’r pwyllgor craffu a’r cabinet. Mae swyddogion yn cynnig cymorth perthnasol i’r aelodau, lle bo’n briodol, i lywio eu trafodaethau. Er enghraifft, trefnodd swyddogion i aelodau etholedig ymweld ag ysgol mewn awdurdod cyfagos i weld sut gallai ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg fodoli gyda’i gilydd mewn un adeilad yn ymarferol, gyda’r naill a’r llall yn cadw hunaniaeth unigryw.

Mae swyddogion yn gwneud defnydd gwerthfawr o wybodaeth a thueddiadau demograffig, fel data genedigaethau byw a derbyniadau i ysgolion Caerffili o'r tu allan i ffin y sir. Mae'r rhain yn llywio strategaethau'r awdurdod lleol yn dda ac yn darparu amrywiaeth o faterion posibl i'r aelodau eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer ad-drefnu yn y dyfodol, er enghraifft yn ymwneud â lleoedd gwag. Mewn ysgolion uwchradd yn arbennig, mae'r strategaethau hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth leihau lleoedd gwag.

Mewn ysgolion cynradd, er bod ambell ysgol wedi cau, mae cyfran y lleoedd gwag wedi cynyddu. Mae swyddogion yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud i werthuso'r rhesymau dros y cynnydd hwn yn llawn. Fodd bynnag, nid ydynt yn ofni gwneud penderfyniadau anodd a chyflwyno cynigion anodd i'r aelodau, er enghraifft drwy gynnig cau ysgolion pan fydd niferoedd disgyblion wedi gostwng i lefelau sy'n anghynaliadwy yn ariannol. Er hynny, mae swyddogion wedi llunio cynlluniau arloesol a chynaliadwy i ad-drefnu a gwneud defnydd da o'r ystafelloedd dosbarth sydd dros ben a'r lle ychwanegol sy'n deillio o leoedd gwag. Er enghraifft, gan weithio gydag ysgolion, maent wedi defnyddio'r lle gwag i greu hybiau cymunedol, ac i gynnal dosbarthiadau darpariaeth arbenigol loeren. Mae'r defnydd cymunedol ehangach o safleoedd ysgolion wedi cryfhau'r perthnasoedd proffesiynol rhwng yr ystod o ddarparwyr a'r teuluoedd y mae'r ddarpariaeth yn eu gwasanaethu. Mae hyn, yn ei dro, o fudd i'r disgyblion.

Enghraifft werth chweil yw'r ganolfan trochi yn y Gymraeg a dreialwyd yn ystod y flwyddyn academaidd hon yn Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed. Mae'r ddarpariaeth hon wedi gwneud defnydd pwrpasol o le dros ben yn yr ysgol, gan gynnig cyfle i ddisgyblion oed cynradd sydd eisiau ymuno ag ysgol cyfrwng Cymraeg gaffael y Gymraeg trwy drochi. Mae'n ceisio cynorthwyo disgyblion i gyfathrebu'n hyderus yn yr iaith Gymraeg, yn barod ar gyfer addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae arweinwyr hefyd yn defnyddio ad-drefnu i hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer y dysgwyr ieuengaf, gan hyrwyddo chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer plant cyn oed ysgol trwy gylchoedd Ti a Fi a Chylch Meithrin. Mae hyn yn arbennig o effeithiol pan fydd trefniadau ad-drefnu'n cefnogi'r ddarpariaeth cylch chwarae sy'n rhannu safle gyda'r feithrinfa a'r ysgol, gan annog pontio'n ddi-dor. Ar hyn o bryd, mae tua chwarter y disgyblion oed meithrin yn derbyn eu haddysg gynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyfran gynyddol o'r disgyblion hyn yn mynd ymlaen i gael darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg, a hynny'n aml ar yr un safle. Mae gan yr awdurdod lleol gynlluniau cadarn i ddefnyddio ei gyllid creu lleoedd a chyfalaf i wella capasiti, cyfleusterau a chyflwr ysgolion cyfrwng Cymraeg presennol, ac adeiladu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd wrth i'r galw am y ddarpariaeth barhau i dyfu.

Ceir strategaeth hynod effeithiol ar draws yr awdurdod lleol sy'n cefnogi ad-drefnu ysgolion fel ffederasiynau a threfniadau pennaeth gweithredol cydweithredol. Mae pedwar ffederasiwn ffurfiol ar hyn o bryd, lle mae pennaeth gweithredol yn arwain dwy ysgol gynradd sy'n rhannu corff llywodraethol. Mae'r trefniadau hyn yn darparu arbedion maint trwy gyfrwng arweinyddiaeth, a rhannu arbenigedd ac adnoddau, yn ogystal â chyfleoedd i arweinwyr ar bob lefel ddatblygu eu medrau ymhellach a chynyddu capasiti ar draws y ddwy ysgol. Hefyd, lle bo'n briodol a phryd bynnag y bydd swydd arweinyddiaeth wag, mae swyddogion yn annog cyrff llywodraethol ysgolion i ystyried cydweithio. Mae'r trefniant anffurfiol hwn yn darparu llawer o fuddion ffederasiynau heb yr ymrwymiad ffurfiol. Mae'n darparu cyfleoedd i gryfhau

gwaith gwella ysgolion a datblygu capasiti arweinyddiaeth, ar yr un pryd â mynd i'r afael yn llwyddiannus ag anhawster posibl recriwtio arweinydd newydd.

**Cameo**

Pan fydd swyddi gwag yn codi ar gyfer arweinwyr ysgolion, mae swyddogion yr awdurdod lleol yn annog cyrff llywodraethol i ystyried trefniadau cydweithredol a arweinir gan bennaeth gweithredol. Ar hyn o bryd, mae traean o'r ysgolion cynradd ledled Caerffili yn cydweithio o dan arweinyddiaeth pennaeth gweithredol, naill ai fel ffederasiwn neu fel cydweithrediad. Ceir gwerthfawrogiad a rennir ar draws yr awdurdod, gan gynnwys mewn ysgolion, o werth a buddion y strategaeth hon. Yn ogystal â'r arbedion ariannol, mae'n hyrwyddo perthynas waith dda rhwng yr awdurdod, arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr, ac yn darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol gwerth chweil i staff. Mae'r ymagwedd yn rhoi sefydlogrwydd i ysgolion ac yn cefnogi eu cynaliadwyedd, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu disgyblion a'u cymunedau ar adeg o ansicrwydd. Mae penaethiaid gweithredol wedi cael eu defnyddio'n effeithiol hefyd i gefnogi ysgolion sy'n achosi pryder a sicrhau gwelliannau cyflym, lle bo angen.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinwyr yng Nghyngor Sir Caerffili wedi sicrhau gweledigaeth gref a ddeëllir yn dda ar gyfer addysg, sef 'dilyn rhagoriaeth gyda'n gilydd' i sicrhau 'dyfodol gwell i bawb'. Mae arweinydd y cyngor a'r aelod arweiniol ar gyfer addysg wedi ymrwymo i sicrhau'r deilliannau gorau i blant a phobl ifanc.

Mae'r tîm rheoli corfforaethol yn sicrhau bod ei ddyhead uchel ar gyfer addysg mewn cymunedau lleol, gan gynnwys mynd i'r afael ag effaith tlodi, yn cael ei adlewyrchu'n glir yn y cynllun corfforaethol. Mae cynllunio strategol, gan gynnwys y cynllun cydraddoldeb strategol, yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda a cheir pwyslais cryf ar gyflawni nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae gan yr awdurdod lleol hanes cryf o reoli amgylchiadau heriol yn ymwneud â gwasanaethau addysg a helpu pobl i dderbyn penderfyniadau anodd sydd er pennaf les plant a phobl ifanc.

**Cameo**

Mae'r Prif Swyddog Addysg yn ysbrydoli'r tîm y mae'n ei arwain, gan ddarparu arweinyddiaeth strategol, empathetig, ac eto cadarn. Mae hi'n gosod disgwyliadau uchel i bawb ac yn dangos ymddygiadau proffesiynol rhagorol. Mae'r uwch dîm yn y gwasanaeth addysg yn cefnogi'r Prif Swyddog Addysg yn fedrus a, chyda'i gilydd, maent yn ymgorffori'r ymagwedd 'Tîm Caerffili'. Maent yn ffurfio perthnasoedd cryf ag ysgolion, lleoliadau ac UCDau, lle mae arweinwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, ac eto'n cael eu herio i gyflawni eu huchelgeisiau a rennir ar gyfer llwyddiant dysgwyr. Un o gryfderau diwylliannol nodedig y gwasanaeth yw'r ffordd y mae'r Prif Swyddog Addysg yn arwain trwy esiampl trwy flaenoriaethu lles staff mewn ysgolion ac yn y gwasanaeth, ar yr un pryd â sicrhau bob amser bod anghenion plant a phobl ifanc wrth wraidd pob penderfyniad. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol yn ymddiried yn y gwasanaeth i gyflawni ei flaenoriaethau ac yn mynd ati i ddileu

unrhyw rwystrau rhag llwyddiant. O ganlyniad, mae staff yn y gwasanaeth drwyddo draw yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn gyfrifol, ac maent yn falch o hyrwyddo'r neges bwysig na ddylai neb gael ei gyfyngu gan ei amgylchiadau.

Yn gyffredinol, mae gan aelodau etholedig ddealltwriaeth dda o waith y gwasanaeth ac maent yn gweithio'n bwrpasol ochr yn ochr â swyddogion. Mae sesiynau briffio rheolaidd ac adroddiadau defnyddiol yn eu galluogi i gael dealltwriaeth fuddiol o faterion pwysig, fel yr angen i wella presenoldeb disgyblion, lleihau gwaharddiadau ac, yn arbennig, cynigion ad-drefnu ysgolion. Mae hyn yn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus a sicrhau bod addysg yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i'r cyngor.

Mae'r Pwyllgor Craffu ar Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried gwaith y gwasanaeth addysg yn briodol. Rhoddir gwybodaeth werth chweil iddo sy'n helpu'r aelodau i ddeall penderfyniadau pwysig a'u heffeithiau posibl. Mae sesiynau cyn-gyfarfod yn helpu aelodau'r pwyllgor craffu i baratoi ar gyfer y cyfarfodydd craffu ffurfiol, ond er bod aelodau'n gofyn cwestiynau perthnasol i swyddogion, nid ydynt yn dal y Cabinet i gyfrif yn ddigon effeithiol fel mater o drefn.

Mae diwylliant o fyfyrio, hunanwerthuso, a gwella yn ymdreiddio trwy waith y gwasanaeth. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith gadarnhaol, er enghraifft ar bresenoldeb disgyblion, cryfhau prosesau ar gyfer gwella ysgolion a'u helpu i wneud cynnydd addas wrth weithredu eu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae cylch clir o weithgareddau gwerthfawr sy'n galluogi swyddogion i fonitro gwaith y gwasanaeth ac amlygu cryfderau cyffredinol a meysydd i'w datblygu. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wella gan 'sesiynau herio' defnyddiol, sy'n cynnwys swyddogion ar bob lefel ac uwch arweinwyr ysgolion. Mae'r sesiynau hyn yn helpu'r awdurdod lleol i gymedroli ei werthusiadau ac i staff herio a chefnogi ei gilydd i wella. O ganlyniad, ceir ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb a rennir ac mae gan uwch swyddogion ddealltwriaeth gref o holl waith y gwasanaeth.

Mae swyddogion yn casglu ystod eang o wybodaeth, gan gynnwys data, i fesur cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a osodwyd yng nghynllun gwella'r gwasanaeth addysg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod llais pobl ifanc a rhanddeiliaid eraill yn cael ei ystyried yn ofalus. Mae hyn, ynghyd â'r ystod o brosesau gwerthuso, yn helpu swyddogion i ystyried effeithiolrwydd gwerthuso eu gwasanaethau mewn ffordd fwy cyfannol. Fodd bynnag, mae craffter gwerthuso'n amrywio ar draws gwahanol wasanaethau. Yn ogystal, nid yw effaith camau gweithredu ar wella gwasanaethau neu ddeilliannau i bobl ifanc yn cael ei hystyried yn ddigon manwl bob amser. O ganlyniad, nid yw blaenoriaethau gwella a meini prawf llwyddiant cysylltiedig yn ddigon penodol bob amser i sicrhau'r effaith fwyaf neu ystyried gwerth am arian gwasanaethau yn llawn.

Mae swyddogion yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r her a gânt yn rhan o drefniadau rheoli perfformiad. Mae hyn yn cynnwys eu cyfarfodydd a'u hadolygiadau rheolaeth llinell rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol ar gyfer unigolion yn caniatáu i swyddogion amlygu meysydd i'w gwella yn ddigon manwl, ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd sicrhau bod staff ar bob lefel yn cael eu dal i gyfrif yn llawn am effaith eu gwaith. Er gwaethaf hyn, mae'r gwasanaeth wedi

meithrin diwylliant cryf lle mae dysgu proffesiynol yn cael ei werthfawrogi'n fawr a lle mae staff yn elwa o ystod eang o gyfleoedd i wella eu medrau. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd i swyddogion ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth, er enghraifft trwy gyfleoedd cysgodi a rhaglenni eraill, ymagweddau at hyfforddi a mentora a chyflawni cymwysterau proffesiynol. Disgwylir i swyddogion rannu unrhyw beth a ddysgwyd er mwyn datblygu dealltwriaeth ac ymarfer eu cydweithwyr, er enghraifft trwy sesiynau min nos ar-lein.

Ceir diwylliant cryf o ddiogelu ar draws yr awdurdod lleol ac ystyrir bod diogelu'n gyfrifoldeb i bawb. Mae'r tîm diogelu corfforaethol yn rhoi arweinyddiaeth gref i'r awdurdod lleol. Mae'n sicrhau bod yr holl staff ac aelodau etholedig yn cael hyfforddiant diogelu, sy'n helpu sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau.

Mae'r swyddogion arweiniol diogelu addysg yn darparu cymorth rhagorol i ddarparwyr. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant buddiol, diweddariadau diogelu amserol a chymorth wedi'i deilwra i ddarparwyr unigol. Er enghraifft, mae swyddogion yn darparu hyfforddiant i benaethiaid uwchradd ar sut i sicrhau ansawdd gwaith yr unigolyn dynodedig yn eu hysgol ar gyfer diogelu. Pan fydd angen, mae swyddogion ar gael yn brydlon i ddelio â phryderon diogelu neu roi cyngor i staff ysgol. Mae arweinwyr ysgolion yn gwerthfawrogi cymorth swyddogion arweiniol diogelu addysg yn fawr a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud i ddiogelu eu disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r swyddogion arweiniol diogelu addysg yn archwilio arferion diogelu mewn ysgolion bob tair blynedd. Maent yn cynnal gwerthusiad trwyadl trwy ymweliadau ar y safle a chyfarfodydd â grwpiau o randdeiliaid, gan gynnwys disgyblion ac ystod o staff. Pan fydd diffygion mewn arfer darparwr, mae swyddogion yn gweithio'n agos gydag arweinwyr ysgolion i fynd i'r afael â'r materion.

Mae swyddogion diogelu'n casglu ystod o ddata gan ysgolion yn rheolaidd i fonitro patrymau ymyrraeth gorfforol ataliol a digwyddiadau gwahaniaethol. Maent yn defnyddio eu gwerthusiadau i ddarparu hyfforddiant ychwanegol i bob ysgol neu i weithio gydag ysgolion unigol pan fydd digwyddiadau mynych.

Mae'r awdurdod lleol wedi blaenoriaethu ei adnoddau refeniw a chyfalaf ar gyfer addysg. Mae'r gwariant a gyllidebwyd gan ysgolion fesul disgybl wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'n uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2023-2024. Cynyddodd yr awdurdod ei wariant refeniw net a gyllidebwyd yn gyffredinol ar gyfer addysg 8.8% ar gyfer 2023-2024, hefyd.

Mae'r awdurdod lleol wedi blaenoriaethu adeiladu ysgolion trwy ei Raglen Creu Lleoedd ac mae'n ystyried sut i gynyddu ei asedau i'r eithaf. Yn rhan o raglen barhaus, mae'r awdurdod wrthi'n cynnal arolygon cyflwr o'i ysgolion i ddarparu gwybodaeth fwy cyfredol a chywir i lywio ei waith cynllunio.

Mae'r awdurdod lleol yn deall ei bwysau ariannol ym maes addysg. At ei gilydd, tanwariodd y Cyngor ei gyllideb addysg yn 2023-2024, ond mae hyn yn cuddio gorwariant o £1.4 miliwn ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol. Mae ganddo brosiect penodol sy'n canolbwyntio ar gludiant o'r cartref i'r ysgol yn rhan o'i raglen drawsnewid Mwstro Tîm Caerffili, ond mae hefyd yn archwilio camau mwy

uniongyrchol i helpu i leihau'r gorwariant ar yr un pryd â lleihau'r effaith ar ddysgwyr gymaint â phosibl. Mae swyddogion yn defnyddio data ariannol a data arall yn effeithiol, gan gynnwys rhywfaint o ddata ariannol cymharol, i lywio eu gwaith cynllunio ariannol.

At ei gilydd, mae balansau ysgolion wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf o £17.2 miliwn yn 2021-2022 i £5.3m yn 2023-2024. Mae'r patrwm hwn yn debyg i awdurdodau eraill yng Nghymru. Mae nifer yr ysgolion sy'n dwyn sefyllfa o ddiffyg ymlaen wedi cynyddu o wyth yn 2022-2023 i 21 yn 2023-2024, ond mae 47 o ysgolion â balans dros ben o fwy na 5%, hefyd. Mae gan yr awdurdod lleol drefniadau ar waith i fonitro balansau ysgolion a gweithio gydag ysgolion i reoli diffygion ac arian dros ben mewn ffordd bragmatig ac ystyriol, gan gynnwys her a chymorth dwysach i'r rhai hynny sy'n achosi'r pryder mwyaf.

Roedd cyllideb yr awdurdod lleol ar gyfer 2024-2025 yn cynnwys twf o ychydig dros £5.2 miliwn ar gyfer ysgolion. Amcangyfrifodd bwysau costau o fwy nag £8.2 miliwn ar gyfer ysgolion. Gan gydnabod ei heriau ariannol ehangach, amlygodd yr awdurdod lleol £1 filiwn o arbedion o'r gwasanaeth addysg a £3 miliwn ar gyfer ysgolion (2%) yn rhan o'i strategaeth gyllideb ar gyfer 2024-2025. Esboniwyd y sail resymegol ar gyfer hyn yn glir i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ac ysgolion. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu targedau arbedion dangosol i ysgolion ar gyfer y ddwy flynedd nesaf i'w helpu i gynllunio.

Mae swyddogion yn gweithio'n agos ac yn adeiladol gyda'r Fforwm Cyllideb Ysgolion. Mae'r cymorth gan y tîm cyllid yn uchel ei barch gan y Fforwm Cyllideb Ysgolion. Mae aelodau'r Fforwm Cyllideb Ysgolion yn ymwybodol o sefyllfa ariannol gyffredinol a strategaeth gyllideb yr awdurdod lleol.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu ystod gynhwysfawr o gytundebau lefel gwasanaeth a cheir lefel uchel o ddefnydd o wasanaethau gan ysgolion. Mae adborth ar y gwasanaethau hyn yn gadarnhaol, at ei gilydd, ac mae'r awdurdod lleol yn cymryd camau i ymateb i feysydd pryder a amlygwyd trwy ei arolwg.

Er bod agweddau ar y fformiwla ariannu ysgolion wedi cael eu hadolygu, cynhaliodd yr awdurdod lleol yr adolygiad cynhwysfawr diwethaf ohoni yn 2018-2019. Mae'r awdurdod lleol wrthi'n cynnal adolygiad manwl o'r fformiwla ac mae'r Fforwm Cyllideb Ysgolion yn rhan o'r adolygiad hwn.

Mae'r awdurdod lleol yn ymgynghori ag arweinwyr ysgolion ac UCDau ar hyn o bryd ynglŷn â dirprwyo'r cyllid ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol er mwyn lleihau gwariant ar weinyddiaeth a rhoi mwy o ymreolaeth i ysgolion. Fodd bynnag, mae'r ymgynghoriad wedi bod yn parhau ers cryn amser ac nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud eto.

Er bod trefniadau ar waith i swyddogion fonitro sefyllfa ariannol yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth addysg, nid yw aelodau'r Cabinet yn cael adroddiadau monitro'r gyllideb drwy gydol y flwyddyn, ac mae pwyllgorau craffu'n cael adroddiadau er gwybodaeth yn unig. Ar gyfer 2024-2025, mae'r awdurdod lleol yn gwella ei drefniadau adrodd i aelodau er mwyn iddynt allu goruchwylio ei sefyllfa ariannol a chraffu arno'n rheolaidd. Bydd y rheolwr cyllid ar gyfer addysg yn mynychu'r Pwyllgor Craffu ar

Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Gorffennaf i roi diweddariad i'r aelodau ar y sefyllfa ariannol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, yn seiliedig ar hunanwerthusiad yr awdurdod, cynlluniau strategol a data perthnasol a ddelir gan Estyn
- yn dadansoddi'r canlyniadau o holiaduron agored, yn cynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgolion, staff yr awdurdod lleol, staff y consortiwm rhanbarthol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag ystod o bartneriaid perthnasol i wasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn cyfarfod ag arweinydd y Cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, yn cynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, yn cynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor neu'r pwyllgor craffu, gwybodaeth yn ymwneud â diogelu dysgwyr, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol a ddelir gan Estyn

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu, er mwyn dilysu, cymedroli a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- yn darparu copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol i nodi unrhyw bryderon â chywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau ble mae angen

## Astudiaeth achos: Cynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol mewn darparwyr prif ffrwd

### Cyd-destun a chefndir yr arfer effeithiol neu arloesol

Yn ystod yr arolygiad, ystyriodd arolygwyr y cwestiwn arolygu lleol hwn: Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cefnogi gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018?

### Disgrifiad o natur y strategaeth neu'r gweithgarwch

Yn awdurdod lleol Caerffili, roedd staff yn Ysgol Arbennig Cae'r Drindod, yn cynnwys Gwasanaeth Sbectrwm Awtistig Caerffili sydd wedi'i leoli yn yr ysgol, yn darparu ystod helaeth o gymorth arbenigol o ansawdd uchel i ysgolion a lleoliadau prif ffrwd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu cymorth uniongyrchol i deuluoedd disgyblion ag awtistiaeth.

Mae gan Ysgol Cae'r Drindod naw dosbarth lloeren ar draws y fwrdeistref ar gyfer disgyblion ag anghenion lefel uchel. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau lloeren ar gofrestr yr ysgol ond yn elwa ar integreiddio â disgyblion mewn lleoliadau prif ffrwd. Datblygiad diweddar yw'r dosbarth lloeren yng Ngholeg y Cymoedd ar gyfer dysgwyr ôl-16. Mae disgyblion yn y dosbarth lloeren hwn yn elwa ar ystod o gyrsiau a gynigir yn y coleg, ond hefyd yn derbyn cymorth arbenigol gan staff Ysgol Cae'r Drindod.

Mae Ysgol Cae'r Drindod hefyd yn darparu ystod o gymorth ar gyfer dosbarthiadau arbenigol yr awdurdod lleol ar draws y fwrdeistref. Trwy gydweithio â'r gwasanaeth seicoleg addysg, mae staff yn yr ysgol wedi darparu cymorth a hyfforddiant ar gyfer asesu disgyblion ag ADY sy'n helpu hyrwyddo darpariaeth o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion pobl ifanc.

### Pa effaith y mae'r gwaith hwn wedi'i chael ar y ddarpariaeth ac ar safonau dysgwyr?

Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth i dros 2,500 o ddisgyblion ag awtistiaeth. Mae wedi bod yn allweddol yn meithrin capasiti ysgolion prif ffrwd i gynorthwyo disgyblion ag awtistiaeth, er enghraifft trwy greu amgylcheddau synhwyraidd isel a chyflwyno strategaethau i gynorthwyo disgyblion unigol.

Mae'r dosbarthiadau lloeren yn bwysig o ran galluogi disgyblion ag ADY i dderbyn eu haddysg o fewn eu cymuned leol. Mae'r dosbarth lloeren yn y coleg yn llwyddiannus o ran codi dyheadau pobl ifanc ag ADY i gyflawni eu nodau yn y dyfodol.

Mae'r cymorth ar gyfer dosbarthiadau arbenigol yr awdurdod lleol yn helpu staff yn y dosbarthiadau hyn i gael dealltwriaeth gyffredin o anghenion disgyblion. Mae hyn yn codi disgwyliadau ac yn gwella'r cynnydd a wna disgyblion ag ADY yn y dosbarthiadau hyn. Mae cymedroli CDUau a chraffu ar waith ar y cyd yn hyrwyddo darpariaeth o safon uchel sy'n diwallu anghenion unigol disgyblion.

Mae ystod helaeth, o safon uchel, y cymorth allymestyn a'r datblygiad proffesiynol a ddarperir gan Ysgol Cae'r Drindod mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol yn cael

effaith werthfawr ar ansawdd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar draws y sir, a’r cynnydd a wna dysgwyr.

**Sut ydych chi wedi rhannu eich arfer dda?**

Mae’r awdurdod lleol wedi rhannu’r arfer dda mewn cyfarfodydd cenedlaethol perthnasol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/09/2024